# Y Pwyllgor Deisebau

## Cofnodion (PET(3)-13-09)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 6 Hydref 2009**
**Amser: 09:30-10:02**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Val Lloyd AC, Dwyrain Abertawe (Cadeirydd)

Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru

Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion

Alun Davidson, Clerc

Andrew Minnis, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Anfonodd Michael German ei ymddiheuriadau. Nid oedd dirprwy yn bresennol ar ei ran.

### Eitem 2: Deisebau newydd

#### (i) P-03-208 Siroedd hanesyddol

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gofyn am fanylion y broses ar gyfer adolygu ffiniau sirol wedi'u cadw gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol.

#### (ii) P-03-216 Triniaeth IVF

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am fanylion cynlluniau'r Gweinidog i weithredu canllaw NICE rhif CG11, ac yn benodol a yw'n bosibl y bydd cyllid ychwanegol ar gael.

#### (iii) P-03-230 Diwrnod Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Gomisiwn y Cynulliad i ganfod a oes posibilrwydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru nodi Diwrnod Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol.

Ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn a oedd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gynlluniau i nodi'r achlysur, ac os nad oedd unrhyw gynlluniau o'r fath, am ei farn am gymryd camau i nodi'r achlysur.

#### (iv) P-03-236 Siarter i Wyrion ac Wyresau

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn gofyn am eglurhad ar statws cyfreithiol cyfredol neiniau a theidiau ac i ofyn ei barn am y cynnig i wneud y siarter yn orfodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol a gyflogir ym maes lles plant.

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i ofyn a oes unrhyw gynlluniau i wneud y Siarter yn orfodol yng ngoleuni'r nifer o staff Llywodraeth Leol a gyflogir yn y maes hwn.

**(v) P-03-248 Gwella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus i bobl ag anableddau**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn am fanylion unrhyw gamau a gynllunnir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn gwbl hygyrch i bobl ag anableddau.

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i ofyn am eglurhad ar unrhyw ofyniad sy'n bodoli i ddarparu mynediad cyfartal i bawb ar drafnidiaeth gyhoeddus yng ngoleuni deddfwriaeth ym maes anabledd a chydraddoldeb.

Ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn pa amcanion sydd ar waith mewn perthynas â hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus a pha faterion neu rwystrau sy'n rhaid eu hystyried cyn y gellir eu cyflawni.

Ysgrifennu at Gydffederasiwn Cludiant Teithwyr i ofyn eu barn ar sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn hygyrch yng Nghymru.

**(vi) P-03-251 Gwahardd Gwelyau Haul**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi gwybod iddi am y ddeiseb ac i ofyn am amserlen ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth, yng ngoleuni'r bwriadau a nodwyd ganddi.

Ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Lles i roi gwybod am y ddeiseb.

## Eitem 3: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

**(i) P-03-187 Diddymu'r tollau ar ddwy bont Hafren**

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Brif Weinidog a ddywedodd ei fod yn aros am ddatganiad interim yr Asiantaeth Briffyrdd ar y mater.

**(ii) P-03-190 Na i ffordd maes awyr Dyffryn Elai (NEVAR)**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb yng ngoleuni datganiad y Dirprwy Brif Weinidog na fydd cynigion ar gyfer ffordd fynediad i'r maes awyr yn cael eu dwyn ymlaen.

**(iii) P-03-218 Achubwch bentref Gwenfo**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb hon yng ngoleuni datganiad y Dirprwy Brif Weinidog na fydd cynigion ar gyfer ffordd fynediad i'r maes awyr yn cael eu dwyn ymlaen.

**(iv) P-03-205 Cadwch Farchnad Da Byw y Fenni**

Nododd y Pwyllgor ohebiaeth oddi wrth y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a Chyngor Sir Fynwy.

**(v) P-03-219 Fferyllfeydd yn y Barri**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

Yn gofyn am fanylion darganfyddiadau'r Grwp Tasg a Gorffen ar ddarparu gwasanaethau fferylliaeth yng Nghymru, pan fyddant wedi'u nodi.

Yn gofyn iddi roi gwybod i'r Pwyllgor a yw hi'n bwriadu caniatáu hyblygrwydd o ran lleoliad fferyllfeydd ac am gadarnhad o'r rheolau yng ngoleuni gohebiaeth gan Gymdeithas Fferylliaeth Cymru ym Mhrydain: Bwrdd Fferylliaeth Cymru.

Ysgrifennu at Fferylliaeth Gymunedol Cymru i ofyn eu barn ar y system cymdogaethau bresennol.

**(vi) P-03-222 Cymdeithas Genedlaethol Osteoporosis**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn iddi :

Ddarparu manylion am y targedau ar gyfer gweithredu safonau'r Gymdeithas wrth ystyried cwympiadau a thoriadau esgyrn.

Darparu manylion am unrhyw drefniadau yn y cyfamser i reoli amrywiadau rhanbarthol o ran darparu gwasanaethau cyn bo'r adolygiad wedi'i gwblhau.

Hysbysu'r Pwyllgor am ganlyniad y cyfarfod â deisebwyr a sut y caiff eu safbwyntiau eu corffori yn y broses adolygu.

Darparu manylion am ganlyniad yr adolygiad pan fydd wedi'i gwblhau yn haf 2010.

**(vii) P-03-223 Adran 6, Deddf yr Iaith Gymraeg**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i :

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Dreftadaeth yn gofyn a yw wedi ystyried cynnwys Aelodau Seneddol Cymreig yn y rhestr o "gyrff cyhoeddus", a ddarperir o dan adran 6 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, yn unol â'r pwerau a ddarparwyd gan y Ddeddf.

**(viii) P-03-225 Coleg Gorseinon**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Goleg Gorseinon i roi gwybod iddynt am yr ymateb gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau a gofyn am farn ar yr opsiynau ariannu a awgrymwyd.

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn am gadarnhad pa bryd y gwneir y penderfyniad am arian Cydgyfeirio.

**(ix) P-03-232 Coetiroedd Ffynnone a Chilgwyn**

Nododd y Pwyllgor iddo dderbyn gohebiaeth bellach gan y deisebwyr.